Rota:

Agor a Croesawu - Mae angen enwau


Paned - Elin, Nia a Carys

| | | |
|---|---|---|
| Stori Plant: | 3 | - Ieuan |
| | 10 | - Steffan |
| | 17 | - Dafydd Jones |
| | 24 | - Gwydion |
| | 31 | - Euryn |
| Ysgol Sul: | 3 | - Elin |
| | 10 | - Sylvia |
| | 17 | - Delyth |
| | 24 | - Ann |
| | 31 | - Elin |

## Dyddiadau Pwysig ar gyfer y Dyddiadur:

- Cyfarfod aelodau - Hydref 7
- Diwrnod Mudiad y Gogledd (Fflint) - Hydref 9
- Bore Coffi Dysgwyr - Hydref 30
- Aduniad Gwersylloedd MEC - Tachwedd 6

Edrychwch ar daflen y mis ar y wefan - www.capelyffynnon.org
Cofiwch am flog y gweinidog - thelandofuz.blogspot.com



Capel y Ffynnon
Penrallt Isaf
Bangor
Rhif Ffon 01248 361117
E-bost dafyddmj@gmail.com
Safle wê - capelyffynnon.org

**E**styn allan yn
**E**ffeithiol i'r
Gymuned gyda
neges **B**erthnasol

# Capel y Ffynnon

## Taflen y Mis, Hydref, 2010



Rhoddodd ef ei hun drosom ni i brynu rhyddid inni oddi wrth bob anghyfraith, a'n glanhau ni i fod yn bobl wedi eu neilltuo iddo ef ei hun ac yn llawn sêl dros weithredoedd da.

Titus 2:14

# Cyfarfodydd Hydref

## Suliau (10 a 6)

3 - Dafydd Job (Cymun bore) - **Cinio yn y capel**
10 - Dafydd Job
17 - Steffan Jones (Cymun Nos)
24 - bore Steffan Job, nos Dafydd Job
31 - Robert Roberts

## Cyfarfodydd Wythnosol

**Dydd Llun (yn y Capel)**

**Ribidires** (9.30)
**Cyfarfod gweddi** (12.30)

**Dydd Iau (7.30 yn y Capel)**

7 **Cyfarfod aelodau**
14 **Cwrdd gweddi**
21 **Cyfarfod gweddi cenhadol**
27 a 28 **Cyfarfodydd Cartref**

**Cyfarfod Merched**
Bore Sadwrn 16 - Tŷ Bethan a Huw

**Cyfarfod Dynion**
Nos Fawrth 19 (8.00) - Tŷ Steffan a Debs

**Bore coffi dysgwyr**
Bore Sadwrn 30 (10.00) - Capel

### Pwyntiau Gweddi:



Wrth feddwl yn ôl dros gyfarfodydd Mis Medi, mae llawer i ddiolch i Dduw amdano. Diolchwch i Dduw am rai wynebau newydd ac am y fendith sydd wedi ei phrofi yn y cyfarfodydd wythnosol.

Mae'n bwysig ein bod yn cofio am y cyfarfod aelodau ddechrau'r mis yma. Byddwn yn trafod cyfarfodydd y tymor ac yn arbennig ein cyfarfodydd nos Sul a'r ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ystod y Sul. Gweddïwch am ddoethineb ac i ewyllys yr Arglwydd gael ei wneud yn glir i ni.

Cofiwch hefyd am nifer o'r eglwys sy'n mynd trwy gyfnod anodd, sydd wedi cael profedigaeth neu sy'n gwella wedi salwch.

Cofiwch hefyd am Dafydd. Mae ganddo rai misoedd prysur. Bydd yn pregethu mewn nifer o lefydd mis Hydref ac yna yn siarad mewn dwy gynhadledd mis Tachwedd.

Yn olaf, cofiwch am y gwaith a fydd yn digwydd yn y coleg fis yma gyda'r myfyrwyr. Cofiwch am Mair, Lydia a Mared yn arbennig gyda'r Undeb Gristnogol Gymraeg.

Grŵp Chwarae RIBIDIRES

Mae'r grwp chwarae ar gyfer plant ifanc wedi dechrau bellach. Mae'r grwp yn agored i unrhywun sy'n edrych ar ôl plant ifanc. Maent yn cyfarfod yn y capel bob bore Llun o 9.30 i 11.00. Cofiwch weddio am y mamau sy'n rhedeg y grwp a gweddïwch y bydd cysylltiadau yn cael eu gwneud gyda rhieni Bangor. Am fwy o wybodaeth siaradwch gyda un o'r mamau.



Bydd y bore coffi i ddysgwyr yn cychwyn y mis yma. Gweddïwch dros y cysylltiadau a fydd yn cael eu gwneud drwy'r gwaith yma. Am fwy o fanylion cysylltwch âg Euryn a Sarah.